# ASTUDIAETH ACHOS: *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):
## Arddangosiad 1

**Monsters University ar y blaen o ran gwerthiant tocynnau yn y DU**
22 Gorffennaf, 2013 | Gan Ian Sandwell

Mae'r ffilm wedi'i hanimeiddio gan Disney, sy'n rhoi'r hanes cyn y ffilm *Monsters Inc*, wedi ychwanegu $4.3m (£2.8m) er mwyn cyrraedd y brig am yr ail wythnos yn olynol. Mae *The World's End* gan Universal wedi dioddef yn sgil y gystadleuaeth, gan agor gyda $3.2m (£2.1m).

Gan drechu'r gystadleuaeth gan yr haul a *The World's End*, mae *Monsters University* yn dal ar y brig yn swyddfa docynnau'r DU am yr ail wythnos yn olynol.

Enillodd yr ail ffilm wedi'i hanimeiddio gan Disney ym masnachfraint *Monsters* grynswth o $4.3m (£2.79m), gan gofnodi cyfartaledd uchaf yr 20 gorau ar y safle ar $8,044 (£5,246). Mae'r ffilm ddiweddaraf hon gan Pixar Animation Studios bellach wedi ennill $13.2m (£8.63m) yn y DU.

Bydd *Monsters University* yn gobeithio y bydd gwyliau'r ysgol yn rhoi hwb i'r ffilm, wrth iddi geisio olrhain canlyniadau blaenorol ffilmiau Pixar yn y DU. Y gyntaf yn ei ffordd yw *Cars 2* ar $23.95m (£15.6m) a *Cars* ar $25.2m (£16.45m).

Efallai y bydd llwyddiant ysgubol *Monsters Inc*. yn y DU, sef $58.1m (£37.9m) yn anoddach ei guro.

**UNIVERSAL**

*The World's End* yw'r ffilm glo yng nghyfres Three Flavours Cornetto Edgar Wright. Mae pobl wedi bod yn disgwyl yn eiddgar amdani, a chafodd ddechrau cadarn, os ychydig yn ddinod, yn y DU, gan orfod bodloni ar yr ail safle.

Ar gyfartaledd o $6,128 (£3,997), enillodd y comedi ffuglen wyddonol grynswth o $3.2m (£2.11m), a dioddefodd o ganlyniad i dywydd poeth parhaus yn y DU.

O'i chymharu â'r ffilmiau a ddaeth o'i blaen, agorodd *The World's End* o flaen *Shaun of the Dead* ($2.5m/£1.6m) ond y tu ôl i *Hot Fuzz* ($9.1m/£5.9m gan gynnwys $2.5m/£1.6m mewn rhagddangosiadau). Mae'n werth nodi bod *Shaun of The Dead* a agorodd ym mis Ebrill, a *Hot Fuzz* a agorodd yn mis Chwefror wedi osgoi cyfnod ffilmiau mawr Hollywood.

*Hot Fuzz* went on to take an excellent $32.2m (£20.99m) in the UK, but the first target for *The World's End* is Shaun's $10.3m (£6.69m) tally.